

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy
(Ffyrdd Amrywiol – Bro Machno - Terfyn Cyflymder) 2018

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 a fydd yn gwahardd unrhyw un rhag gyrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd dros 20 milltir yr awr ar hyd y darnau o ffyrdd a nodwyd yn Atodlen 1 a gwahardd unrhyw un rhag gyrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd dros 30 milltir yr awr ar hyd y darnau o ffyrdd a nodwyd yn Atodlen 2 isod.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â map yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn swyddfeydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Bodlondeb, Conwy, ac yn Llyfrgell Llanrwst yn ystod oriau swyddfa/agor arferol, ac ar wefan y Cyngor.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, at Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn 28 Mawrth 2018.

Atodlen 1 – terfyn cyflymder 20mya

| | |
|--|--|
| Penmachno hyd at Ffordd Cwm Penmachno, Cwm Penmachno | O bwynt 141 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus 06/91 (ffordd fynediad at Hafod Fraith Uchaf) at ei therfyn yng Nghwm Penmachno. |
| Rhes Machno, Cwm Penmachno | Ei hyd gyfan. |
| Ffordd Cwt Ci Cwm Penmachno. | Ei hyd gyfan. |
| Tanrallt Cwm Penmachno | Ei hyd gyfan. |

Atodlen 2 – terfyn cyflymder 30 mya

| | |
|--|--|
| Penmachno hyd at Ffordd Cwm Penmachno, Cwm Penmachno | O bwynt 61 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Llwybr Troed Cyhoeddus 06/91 (ffordd fynediad at Hafod Fraith Uchaf) am bellter o 90 metr tua'r dwyrain. |
| B4406 | O'i chyffordd â ffordd fynediad Tyddyn Gethin am bellter o 40 |

| | |
|------------------------------|---|
| Penmachno | metr tua'r gogledd. |
| Ffordd y Cwm Penmachno | O bwynt 9 metr i'r de o'r ffordd fynediad i Ben-y-Bryn am bellter o 95 metr tua'r de. |
| Ffordd Ysbytty Penmachno | O'i chyffordd â Ffordd Groesffordd am bellter o 200 metr tua'r de. |
| Ffordd Groesffordd Penmachno | Ei hyd gyfan. |

(Estyn y terfyn cyflymder 30mya ar y B4406 o bwynt 50 metr i'r dwyrain o Ffordd Groesffordd i'w chyffordd â'r ffordd fynediad at Dyffyn Gethin yn rhinwedd goleuadau stryd)

Dyddiedig: 28 Chwefror 2018



Delyth E Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu